

Yr Arglwydd Grade o Yarmouth

Cadeirydd

Ofcom

Drwy e-bost

12 Hydref 2023

Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru

Annwyl Michael

Diolch i chi am ymddangos yng nghyfarfod y Pwyllgor ddydd Mercher, 4 Hydref, 2023, i roi tystiolaeth ar gyfer ein gwaith craffu ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru. Hoffem ddiolch hefyd i Kate Biggs ac Eleanor Marks a ddaeth gyda chi ar gyfer y sesiwn. Yn ystod y cyfarfod, cytunwyd i gysylltu â chi gyda chwestiynau pellach, sydd wedi'u nodi isod.

Effaith y Bil Cyfryngau Drafft ar ddarlledu yng Nghymru

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU [Fil Cyfryngau drafft](#) ym mis Mehefin 2023 i ddiweddarau deddfwriaeth ddarlledu ar gyfer yr oes ddigidol. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, dywedodd Eleanor Marks:

We like to see them broadcasting in the Welsh language. As it stands at the moment, if the format has included Welsh language, we can regulate that. That may well change with the Bill.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu beth fyddai'r darpariaethau arfaethedig hyn?

Rydym hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth Ofcom o bwysigrwydd y Gymraeg. O ystyried hyn, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym pa gamau eraill y gall Ofcom eu cymryd i annog deiliaid trwydded radio fasnachol, a allai fod eisiau llacio'r gofynion presennol, i gynyddu neu gynnal eu hallbwn Cymraeg?

Ystyried yr hawliau i ddarlledu chwaraeon

Mae [Deddf Ddarlledu 1996](#) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon lunio rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon o "ddiddordeb cenedlaethol". Ystyr



hyn, fel y gwyddoch, yw bod yn rhaid i'r hawliau darlledu i'r digwyddiadau hyn gael eu cynnig i'r prif ddarlledwyr daearol di-dâl ar delerau teg a rhesymol. Hoffem wybod:

- Pa asesiad y mae Ofcom wedi'i wneud o bwysigrwydd cymharol rhai chwaraeon penodol (fel rygbi) i gynulleidfaoedd yng Nghymru.
- Sut mae gallu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i brynu hawliau chwaraeon wedi newid ers sefydlu'r drefn restru bresennol ar gyfer hawliau chwaraeon.

Trwyddedu a gwariant Sianel 3

Mae rôl trwydded Sianel 3 wrth sicrhau bod ystod o allfeydd cyfryngau sy'n ymwneud â materion cyfoes yng Nghymru yn hanfodol bwysig. Yn y Bumed Senedd, nododd ein Pwyllgor rhagflaenol mewn [adroddiad ar ddatganoli darlledu](#) y dylai fod "gofyniad bod y drwydded Sianel 3 yng Nghymru yn cynhyrchu cyfran fwy o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru". Byddem yn croesawu eich barn ar:

- Sut y gwnaeth Ofcom y penderfyniad ynghylch gofynion presennol trwydded Cymru am bedair awr o newyddion a 90 munud o raglenni nad ydynt yn newyddion.
- Sut mae gofynion presennol trwydded Cymru yn cymharu â thrwyddedau sianel 3 eraill ar draws y DU.
- A ydych wedi gwneud unrhyw asesiad o gynaliadwyedd y lefel hon o raglennu ar gyfer trwydded sianel 3 Cymru?

Ymhellach i hyn, mae adroddiad [Ofcom, Cyfryngau'r Genedl 2023 Cymru](#), yn dangos bod gwariant rhwydwaith y DU gan ITV yng Nghymru yn 2022 wedi disgyn i bron i 0% o'i gwariant cymwys yn y DU. Mewn blynyddoedd diweddar, yn ystod y pandemig, roedd y ffigur hwn yn uwch na phump y cant. Byddem yn croesawu'r wybodaeth a ganlyn:

- Sut ydych chi'n penderfynu beth yw gwariant cymwys a beth yw hyn i Gymru.
- A ydych yn gallu egluro'r newid a amlinellwyd a ddigwyddodd yn ystod cyfnod pandemig Covid-19, yn ogystal ag amlinellu pam y bu mor isel yn y blynyddoedd cyn y pandemig.

Capasiti Ofcom yng Nghymru

Yn ystod y cyfarfod, buom hefyd yn trafod capasiti swyddfa Ofcom yng Nghymru. Nodwyd yr anghyfartaledd sylweddol yn nifer y staffio yng Nghymru o'i gymharu â swyddfeydd Ofcom eraill y tu allan i Lundain. Dywedasochn wrthym am fwriad Ofcom y bydd 30 y cant o'i staff wedi'u lleoli y tu allan i Lundain erbyn 2030. O ystyried y nod hwn, hoffem wybod pa rôl rydych chi'n ei gweld i swyddfa Cymru wrth i chi weithio tuag at y nod hwn, a faint o staff rydych chi'n disgwyl eu lleoli yng Nghymru erbyn 2030?

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb cyn bo hir, a byddem yn hapus i dderbyn unrhyw wybodaeth ychwanegol y dymunwch ei rhannu sy'n berthnasol i'n gwaith craffu.

Yn gywir,



Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

